**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 22 MAI 2024 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Ms Ginger Wiegand.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Pennaeth Polisi a Rhaglenni; Pennaeth Busnes; Uwch Reolwr Prosiect; Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Swyddog Cymorth Tîm.

**Gwestai:** Cynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Ymddiheuriadau:** Rheolwr Cyllid

**Amser dechrau: 10:58**
**Amser gorffen: 12:39**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn am ei phresenoldeb yn y Cyfarfod Arweinwyr Cyhoeddus. Trafododd y Cadeirydd y Ddeddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a **nododd** y caiff y Cyfarfod Arweinwyr Cyhoeddus nesaf ei gynnal ar 11 Gorffennaf.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybod y bydd yn cyfarfod ag Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ar 12 Mehefin.

2.3. Rhoddodd y Cadeirydd wybod ei bod wedi cyfarfod ag Elaina Chamberlain i drafod estyniadau i Gomisiynwyr, a bod hynny'n cael ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet ar hyn o bryd. Dylai'r Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi (JEGS) ar gyfer rolau staff gael eu cwblhau cyn pen y pythefnos nesaf.

2.4. Trafodwyd Diwrnod Strategaeth y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Ebrill a chaiff canlyniadau'r trafodaethau eu hadlewyrchu yn y Cynllun Gweithredol a Chorfforaethol.

2.5. Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi gyfarfod â Colin Everett a Richard Bevan o Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) ac y caiff Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei ddrafftio, gan amlinellu'r broses o drosglwyddo i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

2.6. **Cytunwyd** y bydd y Pridd Weithredwr yn dod â'r Cynllun Gweithredol a'r Cynllun Corfforaethol i un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 17 Ebrill 2024 a 15 Mai 2024.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar gyfer Ceredigion, Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod y brydles wedi dod i law erbyn hyn ac y rhoddwyd rhybudd i Ethical Property. Mae gwaith adnewyddu wedi dechrau yn CP2, sy'n cynnwys gosod y seilwaith TGCh ar gyfer y Comisiwn. **Nodwyd** bod angen diwygio'r contract a gafwyd gan LIC gydag enw cywir y cwmni. **Nodwyd** y bu oedi o ran symud llety, a bod y dyddiad symud cynharaf erbyn hyn yn debygol o fod ym mis Awst.

**4.5.** **(Mater 4)** Cynhaliwyd cyflwyniad gan ORS cyn cyfarfod y Comisiwn.

**4.6.** **(Mater 5) Nodwyd** bod Llythyr Cylch Gwaith 24/25 wedi'i gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet i'r Cadeirydd ar 10 Mai 2024. Bydd Cynllun Gweithredol yn cael ei ddrafftio ar sail y Llythyr Cylch Gwaith.

**4.7.** **(Mater 6) Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Comisiwn Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2023/24.

**4.8.** **Gweithredu: Newid cyfarfod llety ARAC ym mis Mehefin (Rheolwr Cyllid).**

## 5. Y Rhaglen Bontio (i’w thrafod)

**5.1.** **Nodwyd** y byddai eitemau 5 a 6 yn cael eu trafod gyda’i gilydd.

**5.2.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i’r Comisiwn am y rhaglen bontio a chafwyd trafodaeth.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 15 Mai 2024 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** Ystyriwyd Atodiad 1 ‘Amcanion y Bwrdd 2024-2025’. **Nodwyd** yr angen i greu cynllun sefydlu ar gyfer Comisiynwyr sydd newydd eu recriwtio.

**6.3.** Ystyriwyd Atodiad 2 ‘Cylch Gorchwyl Adolygiadau Effeithiolrwydd y Bwrdd’. **Nodwyd** a **chytunwyd** y bydd angen adolygu’r holiadur yn ymwneud â Cham Un. **Nodwyd** a **chytunwyd** y bydd angen i barti allanol oruchwylio Cam Dau.

**6.4.** Ystyriwyd y fformat recriwtio Comisiynwyr a chafwyd trafodaeth am sut i wella cyrhaeddiad y broses recriwtio. Cafwyd trafodaeth am yr heriau sy’n cael eu credu trwy ganolbwyntio’n drwm ar yr angen i’r ddau ymgeisydd fod â phrofiad o ROI a chytunwyd mai dim ond un ymgeisydd fydd angen profiad o ROI i’w galluogi i gadeirio’r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**6.5.** **Nodwyd** bod y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig ar Gam 3 ar hyn o bryd. Rhoddodd yr Uwch Reolwr Prosiect wybod i’r Comisiwn am ganlyniad y trafodaethau Cam 2, yn ogystal â dyddiadau allweddol sydd ar ddod ag achosion oedi posibl.

**6.6. Gweithredu: Diwygio a dosbarthu holiadur yn ymwneud â Cham Un (Cadeirydd, Prif Weithredwr a’r Rheolwr Cyllid).**

**6.7. Gweithredu: Creu cynllun sefydlu newydd ar gyfer Comisiynwyr sydd newydd eu recriwtio (Prif Weithredwr).**

**6.8. Gweithredu: Aileirio’r swydd ddisgrifiad yn amodol ar yr angen i aelodau fod â phrofiad etholiadol (Prif Weithredol).**

**6.9. Gweithredu: Dosbarthu’r hysbyseb swydd i BCEC, CLILC a Solace, ochr yn ochr â llwybrau hysbysebu eraill (Prif Weithredwr a’r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu).**

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2023-24

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad Monitro’r Gyllideb dyddiedig 22 Mai 2024 gan y Rheolwr Cyllid.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CFfDLC dyddiedig 22 Mai 2024 a **chytunwyd** na fyddai unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r adroddiad.

## 9. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CFfDLC

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CFfDLC dyddiedig 24 Ebrill 2024.

**9.2.** **Nodwyd** y gellir newid y sgôr risg ar gyfer rhai eitemau. **Cytunwyd** y cymerwyd camau lliniaru ychwanegol, gan alluogi gostyngiad mewn sgorau risg.

**9.3.** **Trafodwyd** a **chytunwyd** y dylid ychwanegu trosglwyddo data fel risg at y gofrestr risg, gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru.

**9.4.** **Gweithredu: Diwygio'r camau lliniaru ar gyfer unrhyw risgiau sydd wedi lleihau. (Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid)**

**9.5.** **Gweithredu: Ychwanegu trosglwyddo data a chamau lliniaru at y gofrestr risg. (Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid)**

## 10. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon.

**10.2.** **Nodwyd** bod Adroddiad Argymhellion Terfynol Bro Morgannwg wedi'i gyhoeddi.

**10.3.** **Nodwyd** bod Adroddiad Argymhellion Terfynol Caerffili wedi'i gyhoeddi.

**10.4.** Cafwyd trafodaeth ynghylch yr amserlenni ar gyfer Gorchmynion Arolygon Cymunedol Llywodraeth Cymru.

**10.5.** **Nodwyd** y cafwyd un sylw hwyr ar gyfer Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg.

**10.6.** **Nodwyd** bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynigion Drafft Arolwg Cymunedol Ceredigion wedi dod i ben ar 13 Mai. Cafwyd trafodaeth ynghylch y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**10.7.** **Nodwyd** bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer Adroddiad Cynigion Drafft Abertawe wedi dechrau ac y bydd yn parhau ar agor tan 10 Gorffennaf.

**10.8.** **Nodwyd** y byddai Adroddiad Cynigion Drafft Sir Benfro yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

**10.9.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion Arolygu a'r Comisiynwyr am eu gwaith.

**11. Canllaw i Arolwg 2026**

**11.1.** Ystyriwyd y **Canllaw i Arolwg 2026** dyddiedig 15 Mai 2024.

**11.2.** Ystyriwyd pwynt 1.1 yr adroddiad.

**11.3.** Ystyriwyd pwynt 1.5 yr adroddiad. Cafwyd trafodaeth a **chytunwyd** y dylid defnyddio'r ymadrodd 'penderfyniadau terfynol' yn lle'r ymadrodd 'argymhellion terfynol' trwy gydol yr adroddiad.

**11.4.** Ystyriwyd pwynt 1.6 a **nodwyd** mai'r cyfeiriad cyswllt ar gyfer y Comisiwn fydd y cyfeiriad newydd yn Llywodraeth Cymru.

**11.5.** Cafwyd trafodaeth ynghylch dethol Comisiynydd Arweiniol ar gyfer sicrhau ansawdd ar Arolwg y Senedd. **Cytunwyd** y byddai Frank Cuthbert yn gweithredu fel y Comisiynydd Arweiniol.

**11.6.** Cytunwyd ar y **Canllaw i Arolwg 2026** yn amodol ar ddiwygiadau.

**12. Cyflwyno'r Opsiynau a Ddatblygwyd ar gyfer Cynigion Cychwynnol**

**12.1.** Ystyriwyd y Cyflwyniad o'r Opsiynau a Ddatblygwyd ar gyfer Cynigion Cychwynnol, dyddiedig 15 Mai 2024.

**12.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch cwmpas yr opsiynau posibl ar gyfer etholaethau ar gyfer Arolwg y Senedd.

**12.3.** **Nodwyd** bod cysondeb yn ofyniad statudol ar gyfer etholaethau newydd y Senedd.

**12.4.** **Nodwyd** bod etholaethau newydd y Senedd wedi'u seilio ar yr etholaethau Seneddol newydd. Cafwyd trafodaeth ynghylch y materion posibl o ran dealltwriaeth y cyhoedd. **Nodwyd** a **chytunwyd** y byddai'n ddefnyddiol cynnwys yr etholaethau Seneddol newydd yn Adroddiad Arolwg y Senedd.

**12.5.** Ystyriwyd Cynllun 1 yn y Cynigion Cychwynnol.

**12.6.** Ystyriwyd Cynllun 2 yn y Cynigion Cychwynnol.

**12.7.** Ystyriwyd Cynllun 3 yn y Cynigion Cychwynnol.

**12.8.** Ystyriwyd Cynllun 4 yn y Cynigion Cychwynnol.

**12.9.** Ystyriwyd Cynllun 5 yn y Cynigion Cychwynnol.

**12.10.** Ystyriwyd Cynllun 6 yn y Cynigion Cychwynnol.

**12.11.** Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1.

**12.12.** Cafwyd trafodaeth ynghylch enwau'r etholaethau ar gyfer ardaloedd etholaethol newydd y Senedd a **chytunwyd** ar fformiwla ar gyfer cynnig enwau.

**12.13. Gweithredu: Ychwanegu'r etholaethau Seneddol newydd at Adroddiad Arolwg y Senedd.**

**13. Amlinelliad o Adroddiad Cychwynnol Arolwg y Senedd**

**13.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad Cychwynnol Drafft dyddiedig 15 Mai 2024.

**13.2.** **Nodwyd** y caiff yr Adroddiad Cychwynnol ei gyflwyno i'r Comisiwn yng nghyfarfod mis Mehefin.

**13.3.** **Nodwyd** y ceir trafodaeth yng nghyfarfod mis Mehefin ynghylch cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer Arolwg y Senedd.

**14. Calendr Digwyddiadau**

**14.1.** Ystyriwyd y Calendr Digwyddiadau.

**14.2.** **Nodwyd** y ceir trafodaeth yng nghyfarfod mis Mehefin ynghylch y polisi a'r arfer ar gyfer Arolygon Etholiadol.

**15. Unrhyw fater perthnasol arall**

**15.1.** Ni nodwyd unrhyw fater perthnasol arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 26 Mehefin 2024